NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Guselkumab ar gyfer trin soriasis plac cymedrol i ddifrifol

13 Mehefin 2018

Mae guselkumab (Tremfya) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer soriasis plac mewn oedolion os yw'r canlynol yn gymwys:

- mae'r soriasis yn ddifrifol ac yn effeithio ar ansawdd eu bywyd
- nid yw'r soriasis wedi gwella gyda thriniaethau eraill, er enghraifft, ciclosporin, methotrexate a PUVA (soralen a phelydriad uwchfioled ton hir), neu ni ellir cymryd y rhain.

Dylid rhoi'r gorau i driniaeth gan ddefnyddio guselkumab ar ôl 16 wythnos os na fydd y soriasis yn gwella digon.

Wrth asesu sut mae soriasis yn effeithio ar ansawdd eich bywyd, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ystyried unrhyw anableddau neu anawsterau cyfathrebu a allai fod gennych.

Os nad ydych yn gymwys i gael guselkumab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Croen Prydain, 0207 391 6347
- Y Gymdeithas Soriasis, 01604 251 620
- Sefydliad Cymorth Soriasis
- Psoriasis and Psoriatic Arthritis Alliance, 01923 672837

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2973-3

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights